Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC43: Cydweithio ag awdurdodau cynllunio cyfagos

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Awst 2025**

CONWY

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Mae modd gweld copïau hefyd ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor, a gellir cael copi gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol am unrhyw agwedd o'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461**.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 4
2. Cydweithio ag awdurdodau cynllunio cyfagos .......... 4

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

## 2. Cydweithio ag awdurdodau cynllunio cyfagos

2.1 Wrth baratoi CDLIN Conwy, cafwyd cryn dipyn o gydweithio ac ymgynghori â Pharc Cenedlaethol Eryri, awdurdodau cynllunio lleol Sir Ddinbych a Gwynedd, a gyda sefydliadau hanfodol eraill, er mwyn ystyried materion trawsffiniol a'r cyd-destun ehangach.

2.2 Mae cydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol wedi llywio gwaith paratoi'r CDLIN yn y meysydd canlynol.

### Grwpiau Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru

2.3 Awdurdodau cyfagos Conwy yw Cyngor Sir Ddinbych ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae Conwy'n rhannu nifer o aneddiadau gydag APCE. Mae'n hanfodol bod Conwy'n cydweithio'n agos ag APCE ar y strategaeth ofodol, llunio polisïau, tystiolaeth a dynodiadau/dyraniadau tir. Mae cydweithio Cyfagos/Rhanbarthol yn digwydd ar amrywiol lefelau.

- Lefel leol gyfagos – Cyfarfodydd uniongyrchol â CSDd ac APCE i gydweithio ar dystiolaeth, polisïau a dyrannu/dynodi tir.
- Gweithgorau pynciol y CDLIN – Mae trefniadau llywodraethu'r CDLIN yn cynnwys gweithgorau pynciol sy'n cynnwys partneriaid allanol ac awdurdodau cyfagos (e.e. tai, economaidd, ynni adnewyddadwy, twristiaeth ac ati).
- Grŵp Rheolwyr Polisi Cynllunio Rhanbarthol – Cyfarfod polisi cynllunio rhanbarthol lle cyflwynir a chynigir materion cyfagos/rhanbarthol fel rhan o baratoadau'r CDLIN.

- Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru – Cyfarfod uwch swyddogion cynllunio rhanbarthol lle cyflwynir a chytunir ar faterion cyfagos/rhanbarthol fel rhan o baratoadau'r CDLIN.

- Is-bwyllgorau a Byrddau Rhanbarthol y Cynllun Datblygu Strategol/Cyd-bwyllgor Corfforedig – Cyfleoedd i gyflwyno strategaethau lefel leol a sicrhau eu bod yn cydweddu â chyfeiriad strategol rhanbarthol y Cynllun Datblygu Strategol.

## Tai

2.4 Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion polisi cynllunio CBSC a Pharc Cenedlaethol Eryri i drafod yr ymagwedd at bolisïau tai a'r sail dystiolaeth mewn lleoliadau aneddiadau a rennir.

2.5 Mae'r gofyniad anheddau a gyfrifwyd yn Adroddiad Opsiynau Lefel Twf BP1 yn cynnwys data ar gyfer tueddiadau blaenorol ar gwblhau tai yn rhan Bwrdeistref Sirol Conwy o Barc Cenedlaethol Eryri. Cafodd lwfans ei gynnwys ar gyfer cwblhau tai yn y dyfodol yn yr ardal hon yn ystod cyfnod y CDLIN.

2.6 Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau rhwng cynllunwyr Parc Cenedlaethol Eryri a CBSC i drafod yr hierarchaeth aneddiadau ac ymagweddau at y polisi tai yn yr aneddiadau a 'rennir' (y rhai sy'n cael eu rhannu gan ffin y Parc Cenedlaethol). Datblygwyd ymagwedd gyson at y polisïau.

2.7 Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd hefyd mewn perthynas â lefel yr ail gartrefi a'r llety gwyliau. Mae gan rai cymunedau a 'rennir' gyfrannau uchel o'r rhain. Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi datblygu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r lefelau hyn. Rhannwyd data a chynigiwyd ymagwedd bolisi gyson ym mholisïau'r CDLIN.

2.8 Cafodd awdurdod cynllunio Eryri ei gynnwys yn y broses o baratoi Asesiad o'r Farchnad Dai Leol BP9. Ymgorfforwyd eu barn a'u hanghenion yn y broses, a chynhyrchwyd data ar wahân fel rhan o'r adroddiad terfynol. Cynhaliwyd cyfarfodydd lefel ranbarthol rheolaidd i sicrhau ymagwedd gyson rhwng yr awdurdodau wrth baratoi'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae cydweithio agos yn parhau rhwng polisi cynllunio CBSC, tai a pholisi cynllunio Eryri i

ddatblygu tystiolaeth a chynlluniau i fodloni anghenion tai fforddiadwy ardal Parc Cenedlaethol Eryri o'r awdurdod lleol.

2.9 Rhannodd Gwynedd eu profiad a'u harferion gorau wrth baratoi tystiolaeth tai, a hynny ar ail gartrefi, llety gwyliau a thai i ddiwallu anghenion lleol. Adlewyrchwyd hyn yn ymagwedd bolisi a sail dystiolaeth CDLIN Conwy.

2.10 Rheolwyd y gwaith o baratoi'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drwy grwpiau llywio ar y cyd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o CBSC, CSDd ac APCE. Sicrhaodd hyn ymagwedd gyson at dystiolaeth ar draws ffiniau wrth bennu casgliadau ac anghenion cymunedau lleol.

2.11 Bu trafodaethau ar gamau cynnar paratoi'r CDLIN yn hanfodol i bennu patrymau teithio, lleoliadau safleoedd strategol ac effeithiau ar gyfleusterau a gwasanaethau trawsffiniol.

### Manwerthu

2.12 Mae'r Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf yn ystyried y gwariant a'r dalgylchoedd manwerthu ar sail ranbarthol. Ystyrir Llandudno yn Ganolfan Siopa Is-ranbarthol, gan fod ei dalgylch yn cwmpasu rhannau o awdurdodau cyfagos. Mae canolfannau manwerthu mawr mewn awdurdodau cyfagos yn cynnwys Bangor, Y Rhyl a Phrestatyn a chanolfannau manwerthu mawr ymhellach draw hefyd. Gallai cynigion datblygu ar raddfa fawr mewn awdurdodau cyfagos effeithio ar ddarpariaeth ac anghenion manwerthu yn ardal CDLIN Conwy, felly roedd cydweithio ag awdurdodau cyfagos a rhannu gwybodaeth gyda nhw yn allweddol i sicrhau sail dystiolaeth gadarn.

### Cyflogaeth

2.13 Ystyriodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth y berthynas rhwng teithio i ac o'r sir i weithio gyda siroedd cyfagos (Gwynedd a Sir Ddinbych). Bwriad hyn oedd ail-gydbwyso defnyddiau tir y Sir i sicrhau y gellid darparu mwy o swyddi (o well ansawdd), a allai helpu i wrthdroi'r tueddiad hwn ac adennill unigolion sy'n teithio o'r sir i weithio, a thrwy hynny leihau'r gyfradd net o bobl sy'n teithio o'r sir i weithio.

2.14 Ymgynghorwyd yn benodol â Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gasglu tystiolaeth gefndirol ar gyfer y papur cefndir ar gynllunio a'r economi wledig. Gwnaed hyn i sefydlu nodweddion cyffredin â materion sy'n codi yn yr ardal wledig, a sicrhau y byddai ymagweddau cynllunio bob ochr i'r ffin yn cydweddu.

### Mwynau a Gwastraff

2.15 Lluniwyd y sail dystiolaeth a'r polisïau cynllunio Mwynau a Gwastraff gyda chyfranogiad Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru, sef gwasanaeth rhanbarthol a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint. Oherwydd y ffocws rhanbarthol, roedd posib nodi nodweddion tebyg a rhannu arferion da mewn perthynas â'r problemau cynllunio mwynau a gwastraff yn yr awdurdodau cynllunio cyfagos ac awdurdodau cynllunio eraill gogledd Cymru. Yn benodol, mae pennu cronfeydd mwynau a gwaith Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn enghraifft arall o gydweithio rhwng Conwy a'i awdurdodau cynllunio lleol cyfagos ar y maes cynllunio arbenigol hwn.

### Yr Amgylchedd Naturiol a Nodweddion Amgylcheddol

2.16 Paratowyd adrannau amgylchedd naturiol a nodweddion amgylcheddol y CDLIN ar y cyd â'r awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau bod effeithiau, mesurau lliniaru a dynodiadau trawsffiniol yn cydweddu. Er enghraifft, sefydlwyd gwaith paratoi tystiolaeth, polisïau a dynodiadau'r ardaloedd Awyr Dywyll a'r ardaloedd Gwynt a Solar a Aseswyd Ymlaen Llaw ar ôl eu hystyried ar y cyd.

### Twristiaeth

2.17 Rhaid hybu twristiaeth (atyniadau, llety ac arallgyfeirio) ar ôl cydweithio ag awdurdodau cyfagos, er mwyn sicrhau bod cefn gwlad agored yn cael ei warchod a'i reoli, a bod ffyniant economaidd a chyflogaeth yn cael eu hybu ar yr un pryd. Mae Conwy wedi cydweithio'n agos ag Eryri i sicrhau bod y polisïau'n cydweddu er mwyn cyflawni'r amcanion allweddol hyn.